

Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Rhian Davies (Llansannan) a gweddill y teulu yn dilyn marwolaeth ei thad, Mr John Francis Williams, yn ystod yr wythnos. Gweddïwn y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion at y cleifion – Elizabeth Jones (Llansannan) yn Ysbyty Glan Clwyd, a Trefor Jones (Nantglyn), Selwyn Davies ac Eirian Davies (Cefn Meiriadog) sy'n parhau yn yr Inffirmari. Parhawn i gofio hefyd am y rhai hynny sy'n derbyn triniaethau tymor hir. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd.

I ddod

- **OEDFA DDIOCHGARWCH CAPEL SARON** nos lau, Hydref 2il gyda'r Parch Emlyn Richards yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- **CYFARFOD BLYNYDDOL CHWIORYDD YR HENADURIAETH** yng Nghapel Bethania, Rhuthun nos Fercher, Hydref 8fed am 7.00. Y siaradwraig fydd Mary Thomas, Llanuwchllyn. Croeso cynnes i bawb.
- **NOSWEITHIAU ARDDANGOS A HYRWYDDO GWERSLYFRAU AC ADNODDAU CRISTNOGOL** a chyfle i gael cyflwyniad ar faterion gofal a diogelwch rhwng 7 a 9 o'r gloch. Bydd cyflwyniad 15 munud gan Aled Davies i gyfres o werslyfrau newydd ac adnoddau eraill am 7.30, ac yna am 8.00, bydd Julie Edwards yn rhoi cyflwyniad ar ran y Panel Diogelwch Cydenwadol i'r ddogfen Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus. LLEOLIADAU: Medi 30ain – Coleg y Bala; Hydref 6ed – Bethania, Rhuthun; Hydref 9fed – Capel yr Annibynwyr, Cyffordd Llandudno; Hydref 13eg – Capel Coffa Henry Rees, Llansannan. Croeso cynnes i bawb.
- **CYMDEITHAS CHWIORYDD BRO ALED** yn cyfarfod yng Nghapel y Groes nos Fawrth, Hydref 14eg. Y gŵr gwadd fydd y Parch. Tecwyn Ifan.
- **CYFARFOD I WERTHFAWROGI GWEINIDOGAETH Y PARCH ERIC JONES** (a fydd yn ymddeol wedi iddo wasanaethu'i Ofalaeth bresennol am dros 25ain mlynedd, a thros 16eg o flynyddoedd cyn hynny yng ngofalaeth Llansannan) dydd Sul, Hydref 19eg am 3:30 yng Nghapel Berea Newydd, Bangor. Bydd croeso cynnes i bawb.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Eseciel 37: 11-14 (BCND tud.789 / BCN: tud.719)

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 21^{ain} Medi 2014

Darlleniad y Dydd

Salm 63: 1-8

(BCND tud.524 / BCN: tud.479)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Gan fy mod yn ysgrifennu hwn ar ddydd lau, dydw i ddim yn gwybod am ganlyniad pleidlais hanesyddol yr Alban. Ond buaswn yn hoffi medru troi'r cloc ymlaen rhyw ychydig er mwyn gallu gweld be' ddigwyddodd. Yn y papurau mawr mae 'na le wedi ei neilltuo ar gyfer newyddion munud olaf ond nid felly mae hi hefo Llais Bro Aled! Bydd rhaid i mi a Rhodri aros tan wythnos nesa cyn cael dweud ein dweud! Ond trwy gydol yr ymgyrchu hyd gyffro'r bwrw a chyfri'r bleidlais olaf, mae sawl peth wedi fy nharo.

Pwyslais mawr yr ymgyrch o blaid oedd y dyhead am greu gwlad well – gwlad o gyfiawnder cymdeithasol a ffyniant economaidd ple byddai pobl yn cael mwy o rym yn y gwaith o greu cymdeithas gyfartal a gwâr.

Pwyslais yr ymgyrch o blaid cadw'r deyrnas yn unedig oedd yr un a geir yn yr hen ddihareb 'mewn undeb mae nerth'. Ac er mwyn cadw'r Alban, gwnaed addewidon lu i drosglwyddo mwy o rym a chadw'r drefn ariannol bresennol.

Diddorol fydd y cyfri! Sut bynnag yr aiff hi fe fydd mwy o rym gwleidyddol yn nwylo'r Albanwyr o fory (ddydd Gwener) ymlaen.

Yr hyn sy'n galonogol am yr ymgyrch ydi ei bod wedi'n hatgoffa fod gan bobl o hyd, er gwaethaf cyflwr y byd, ddyheadau dyfnion am gyfiawnder, ffyniant a chyfartaledd. Dyma apêl mawr y gwleidyddion ond dyma hefyd – a mwy – yw apêl fawr yr Efengyl i'r ddynoliaeth. Yn wir, mae'r Beibl yn dweud wrthym mai dyma'r union bethau a gawn gan Dduw wrth i ni ymateb a derbyn Iesu yn Arglwydd.

Mae Duw yn delio'n gyfiawn hefo ni. Wrth roi Iesu i ni mae wedi rhoi cyfiawnder Iesu i ni hefyd ac mae credu hyn yn peri fod gennym heddwch tuag at Dduw (Rhufeiniaid 5:1). Hefyd, wrth i ni dderbyn Iesu yn Waredwr, rydan ni hefyd yn derbyn y ffyniant mae Duw wedi ei fwriadu ar ein cyfer. Bywyd tragwyddol! Dyma beth ydi gwir ffyniant! Bywyd yn ei lawnder gogoneddus sy'n cael ei roi i'r sawl sy'n dod i adnabod y Mab. (Ioan 17: 3) Os ydach am wybod mwy am y ffyniant yma, darllenwch benodau olaf Eiseia hefyd – mae nhw'n wych ar gyfer codi calon y Cristion!

Yna, o ran ein gwneud yn gyfartal – dyma wyrth fawr gras Duw yn y galon sef creu pob peth yn newydd yn un ddynoliaeth newydd o frodyr a chwiorydd cyfartal yng Nghrist! (Effesiaid 2). Mae'r Cristion felly yn ddinesydd ac yn etifedd teyrnas Dduw a does dim gwell lle i fod ar fore newydd fel hyn – gwell lle na'r Alban newydd hyd yn oed!

Pob bendith i chi heddiw wrth i ni atgoffa'n gilydd o'n breintiau fel dinasyddion nefol, rhydd yng Nghrist, ac wrth i ni uno i'w ganmol gyda'n gilydd.

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Aneurin yn pregethu.
- Llun • **CAP (Grŵp genod bl. 7-11)** yn y Granar yn Llansannan am 4.30.
- lau • **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30.
- **Cwrdd Chwarter** yn cyfarfod ar y cyd â Chyfundeb Dwyrain Dinbych a Fflint yng Nghapel Pendref, Rhuthun am 7.00 yng nghwmni'r Parch. Ddr Geraint Tudur a'r Parch. Robin Samuel.
- Gwener- • **Aduniad Llanw** nos Wener a dydd Sadwrn yn y Bala ar gyfer pobl o Sadwrn bob oed, yn deuluoedd ac unigolion, ac i ffrindiau hen a newydd. Y siaradwr fydd y Parch. Hywel Meredydd. Cysylltwch â Choleg y Bala i roi eich enw, mor fuan â phosib, os gwelwch yn dda (01678 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk).
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch. Gwyndaf Jones yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

Llansannan

- Sul yma Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- lau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 a Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Llanefydd am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-reddeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain, a'r oedolion am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Dewi Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Berain am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg ag oedfa'r bore yn Llanefydd, a'r oedolion am 11.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau